Fframwaith Dyfarnu Amgen Cymwysterau Cyffredinol ar gyfer Cymru

MEHEFIN 2021

Fersiwn

Cyhoeddwyd y ddogfen hon (Fframwaith Dyfarnu Amgen Cymwysterau Cyffredinol ar gyfer Cymru - GQAAFW) gyntaf ar 22 Mehefin 2021.

Mae ein GQAAFW yn cynnwys nifer gymharol fach o Amodau allweddol sy'n gosod y fframwaith lefel uchel ar gyfer dyfarnu Cymwysterau Cyffredinol yr haf hwn. Mae manylion pellach am y camau y mae'n rhaid i CBAC eu cymryd cyn i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi wedi eu nodi yn ein gofynion.

Cynnwys

Cyflwyniad 4
Amod GQAAFW1 - Cymhwyso, Dehongli a Diffiniadau 5
Amod GQAAFW2 - Asesiadau o dan Fframwaith GQAAFW 8
Amod GQAAFW3 - Canlyniadau ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol 9
Amod GQAAFW4 - Cam 1 - Adolygiad Canolfan o Radd dros dro a Bennir gan Ganolfannau 11
Amod GQAAFW5 - Cam 2 - Apelio i CBAC 13
Gofynion mewn perthynas â phennu canlyniadau 16

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhan o gyfres o ddogfennau sy'n nodi ein gofynion rheoliadol ar gyfer cyrff dyfarnu sy'n cynnig Cymwysterau Cyffredinol yr effeithir arnynt yn haf 2021. Gelwir y fframwaith rheoleiddio eithriadol hwn yn Fframwaith Dyfarnu Amgen Cymwysterau Cyffredinol Cymwysterau Cymru (GQAAFW).

Mae ein GQAAFW yn cynnwys nifer gymharol fach o Amodau allweddol sy'n gosod y fframwaith lefel uchel ar gyfer dyfarnu Cymwysterau Cyffredinol yr haf hwn. Mae manylion pellach am y camau y mae'n rhaid i CBAC eu cymryd cyn i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi wedi eu nodi yn ein gofynion.

Y Cymwysterau Cyffredinol yr effeithir arnynt y mae Amodau GQAAFW yn berthnasol iddynt yw:

- Cymwysterau Cymeradwy TGAU;
- Cymwysterau Cymeradwy Uwch Gyfrannol (UG) TAG;
- Cymwysterau Cymeradwy Safon Uwch TAG;
- Tystysgrif Her Sgiliau (THS) Bagloriaeth Cymru; a
- Chymwysterau TGAU, UG TAG a Safon Uwch TAG sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru yn unig[1].

Daeth y Ddogfen Reoleiddio hon i rym ar 22 Mehefin 2021 ar gyfer pob un o'r Cymwysterau Cyffredinol yr effeithir arnynt. Mewn perthynas â'r holl Gymwysterau Cyffredinol y mae'r Amodau a nodir yn y ddogfen hon yn gymwys iddynt, ac eithrio i'r graddau a nodir yn yr Amodau hynny, rhaid i CBAC hefyd gydymffurfio â'n:

- Amodau Cydnabod Safonol[2] sy'n berthnasol i bob corff dyfarnu a chymhwyster;
- Amodau lefel Cymhwyster;
- Meini Prawf Cymeradwyo, ac
- unrhyw Ddogfennau Rheoleiddio perthnasol eraill[3].

[1] CBAC TGAU Lefel 1 / Lefel 2 mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, CBAC TGAU Lefel 1 / Lefel 2 mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (Cwrs Byr), CBAC TAG Uwch Lefel 3 mewn TGCh Gymhwysol, CBAC TAG Uwch Lefel 3 mewn TGCh, CBAC TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 mewn TGCh Gymhwysol, CBAC TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 mewn TGCh, CBAC TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol a CBAC TAG Uwch Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

[2] https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/amodau-cydnabod-safonol/

[3] https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/rhestr-o-ddogfennau-rheoleiddio/

Amod GQAAFW1 - Cymhwyso, Dehongli a Diffiniadau

Cymhwyso

GQAAFW1.1 Mae Amodau GQAAFW yn berthnasol -

(a) i bob Cymhwyster Cyffredinol,

(b) tan unrhyw ddyddiad a bennir yn, neu y penderfynir arno o dan, unrhyw hysbysiad ysgrifenedig a gyhoeddir gan Cymwysterau Cymru o dan Amod GQAAFW1.

GQAAFW1.2 Gallai unrhyw hysbysiad o'r fath a gyhoeddir gan Cymwysterau Cymru -

(a) gael ei gyhoeddi mewn perthynas ag un neu fwy o -

(i) Gymwysterau Cyffredinol,

(ii) Amodau GQAAFW,

(b) gael ei amrywio neu ei dynnu'n ôl gan Cymwysterau Cymru ar unrhyw adeg cyn y dyddiad a bennir ynddo neu y penderfynir arno o dan yr hysbysiad a

(c) chynnwys unrhyw ddarpariaethau trosiannol ac arbed y mae Cymwysterau Cymru yn eu hystyried yn briodol.

GQAAFW1.3 Rhaid i CBAC gydymffurfio â gofynion unrhyw ddarpariaethau trosiannol ac arbed sydd wedi'u cynnwys mewn hysbysiad a gyhoeddir gan Cymwysterau Cymru o dan Amod GQAAFW1.2.

Dehongli a diffiniadau

GQAAFW1.4 Oni bai bod darpariaeth arall wedi'i gwneud yn Amod GQAAFW1.7, bydd y canlynol yn berthnasol i Amodau GQAAFW -

(a) y rheolau dehongli a'r diffiniadau a amlinellir yn Amod Safonol J1,

(b) y diffiniadau a amlinellir yn Amodau'r Lefelau Cymhwyster (Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer Cymwysterau TGAU / TAG ac Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru).

GQAAFW1.5 Ac eithrio o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn Amod GQAAFW1.6, mae'r gofynion a osodir gan Amodau GQAAFW yn berthnasol yn ychwanegol at y gofynion a osodir

gan yr Amodau Cydnabod Safonol, yr Amodau Lefel Cymhwyster, y Meini Prawf Cymeradwyo ac unrhyw Ddogfen Reoleiddio berthnasol arall.

GQAAFW1.6 I'r graddau y mae unrhyw anghysondeb rhwng -

(a) un o ofynion unrhyw Amod GQAAFW, ac

(b) un o ofynion Amod Cydnabod Safonol, Amod Lefel Cymhwyster, Meini Prawf Cymeradwyo neu unrhyw Ddogfen Reoleiddio arall,

fel na allai CBAC gydymffurfio â'r ddau ofyniad o'r fath, rhaid i CBAC gydymffurfio â gofyniad Amod GQAAFW ac nid yw'n ofynnol iddo gydymffurfio â gofyniad yr Amod Cydnabod Safonol perthnasol, Amod Lefel Cymhwyster, Meini Prawf Cymeradwyo neu Ddogfen Reoleiddio arall.

GQAAFW1.7 Yn yr Amodau hyn bydd i'r geiriau canlynol yr ystyr a roddir iddynt isod (a dylid dehongli ymadroddion cytras yn unol â hynny) -

Amodau Lefel Cymhwyster

Amodau Lefel Cymhwyster a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru yn unol ag Atodlen 3, Paragraff 2 (3) (b) o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015.

Cymwysterau Cyffredinol

Cymhwyster sy'n unrhyw un o'r canlynol -

(a) Cymwysterau TGAU Cymeradwy;
(b) Cymwysterau UG TAG Cymeradwy;
(c) Cymwysterau Safon Uwch TAG Cymeradwy;
(d) Cymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru; neu
(e) Gymwysterau TGAU, UG TAG a Safon Uwch TAG sydd ar gael i Ddysgwyr yng Nghymru yn unig.

Ymgeisydd Preifat wedi'i asesu gan Ganolfan

Dysgwr nad oes Canolfan Berthnasol mewn perthynas ag ef, ond mae ganddo berthynas sefydledig â Chanolfan sydd eisoes wedi cytuno i'w gofrestru am gymhwyster a chynnal yr asesiad angenrheidiol o'i waith.

Ymgeisydd Preifat sydd â Pherthynas â Chanolfan

Dysgwr nad oes Canolfan Berthnasol ar ei gyfer, ac nad oes ganddo berthynas sefydledig â Chanolfan.

Canolfan Berthnasol

Mewn perthynas â Dysgwr, Canolfan sydd -

(a) wedi prynu'r Cymhwyster Cyffredinol ar ran y Dysgwr, ac wedi

(b) cyfrannu'n sylweddol at baratoi'r Dysgwr ar gyfer yr asesiad (p'un ai trwy addysgu neu gyfarwyddyd a ddarperir gan Athrawon a gyflogir ganddi neu fel arall).

Amod GQAAFW2 - Asesiadau o dan Fframwaith GQAAFW

GQAAFW2.1 Yn ystod y cyfnod pan fydd yr Amod hwn mewn grym -

(a) Rhaid i CBAC sicrhau nad oes unrhyw Ddysgwr yng Nghymru yn cymryd asesiad trwy arholiad am Gymhwyster Cyffredinol y mae'n sicrhau sydd ar gael iddo, a

(b) rhaid i CBAC beidio â Chymedroli asesiad am Gymhwyster Cyffredinol.

Amod GQAAFW3 - Canlyniadau ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol

GQAAFW3.1 Rhaid i CBAC

(a) roi canlyniad i bob Dysgwr a gofrestrwyd, ar neu cyn 2 Gorffennaf 2021, i gymryd Cymhwyster Cyffredinol yn 2021 y mae'n sicrhau sydd ar gael iddo, a

(b) gallai roi canlyniad i Ddysgwr y gallai -

(i) CBAC yn rhesymol fod wedi disgwyl iddo fod wedi ei gofrestru i gymryd Cymhwyster Cyffredinol yn 2021 y mae'n sicrhau sydd ar gael iddo, ac

(ii) nad oedd wedi ei gofrestru felly.

GQAAFW3.2 Mewn perthynas â phob canlyniad y mae'n ei gyhoeddi o dan Amod GQAAFW3.1, rhaid i CBAC -

(a) sicrhau ei fod yn pennu'r canlyniad hwnnw -

(i) yn unol ag unrhyw ofynion, a

(ii) chan ystyried unrhyw ganllawiau,

a allai gael eu cyhoeddi gan Cymwysterau Cymru, neu fel arall a bennwyd i CBAC gan Cymwysterau Cymru, a'u diwygio o bryd i'w gilydd, a

(b) chymryd pob cam rhesymol i gyhoeddi'r canlyniad hwnnw yn unol ag unrhyw ddyddiad neu amserlen a gyhoeddir mewn perthynas â'r cymhwyster hwnnw o dan Amod Safonol H6.1 (b) sy'n dod o fewn y cyfnod cyn Awst 2021.

GQAAFW3.3 Rhaid i CBAC -

(a) ddarparu canllaw effeithiol i Ganolfannau mewn perthynas â'r materion a bennir yn y gofynion a osodwyd o dan Amod GQAAFW3.2 (a) (i),

(b) darparu'r canllaw hwnnw (gan gynnwys ar ffurf drafft lle nad yw wedi'i gwblhau) i Cymwysterau Cymru ar gais, ac wedi hynny ystyried unrhyw sylwadau a ddarperir gan Cymwysterau Cymru ynghylch y canllaw hwnnw, a

(c) darparu trefniadau clir ac effeithiol y gallai'r Ganolfan gysylltu â CBAC trwyddynt mewn perthynas â'r materion a bennir yn y gofynion a osodir o dan Amod GQAAFW3.2 (a)(i).

Sicrhau ansawdd

GQAAFW3.4 Rhaid i CBAC beidio â chyhoeddi unrhyw ganlyniad o dan Amod GQAAFW3.1 -

(a) mewn perthynas â Dysgwr nad yw wedi derbyn datganiad ar ei gyfer gan bennaeth y Ganolfan sy'n bodloni'r gofynion a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru o dan Amod GQAAFW3.2 (a) (i), ac eithrio Ymgeiswyr Preifat sydd â Pherthynas â Chanolfan a aseswyd gan CBAC, neu

(b) lle nad yw CBAC yn fodlon bod y Ganolfan wedi cwrdd yn llawn â'r holl ofynion a osodwyd yn unol ag Amod GQAAFW3.2 (a) (i).

Amod GQAAFW4 - Cam 1 - Adolygiad Canolfan o Radd dros dro a Bennir gan Ganolfannau

GQAAFW4.1 Rhaid i CBAC gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y Ganolfan, cyn i Raddau a Bennir gan Ganolfannau dros dro gael eu cyhoeddi gan y Ganolfan i CBAC, yn sefydlu trefniadau effeithiol ar gyfer ei Ddysgwyr (gan gynnwys Ymgeiswyr Preifat a asesir gan Ganolfannau), i ofyn am adolygiad o Radd a Bennir gan Ganolfan dros dro ar y sail bod y Ganolfan wedi gwneud gwall wrth benderfynu ar y Radd a Bennir gan Ganolfannau dros dro.

GQAAFW4.2 Rhaid i CBAC sicrhau, cyn iddo gyhoeddi Graddau a Bennir gan Ganolfannau dros dro i Ymgeiswyr Preifat sydd â Pherthynas â Chanolfan, fod ganddo drefniadau effeithiol ar waith i ganiatáu i'r Dysgwyr hynny ofyn am adolygiad o'r Radd a Bennir gan Ganolfannau dros dro ar y sail bod CBAC wedi gwneud camgymeriad wrth benderfynu ar y Radd a Bennir gan Ganolfannau dros dro.

GQAAFW4.3 At ddibenion Amod GQAAFW4.1 a 4.2, rhaid i'r trefniadau sicrhau:

(a) y cydymffurfir ag unrhyw ofynion a ddyroddir yn unol â GQAAFW3.2 (a);

(b) y rhoddir sylw dyladwy i unrhyw ganllawiau perthnasol a ddyroddir yn unol â GQAAFW3.2 (a);

(c) y rhoddir Gradd a Bennir gan Ganolfannau dros dro i bob Dysgwr ar gyfer pob Cymhwyster Cyffredinol a gymerir gan y Dysgwr hwnnw, er mwyn caniatáu amser rhesymol i'r Dysgwr ystyried a ddylid gofyn am adolygiad o'r Radd a Bennir gan Ganolfannau dros dro;

(d) y caiff pob Dysgwr ei hysbysu y gallant ofyn am gopïau o ddeunyddiau perthnasol i'w cynorthwyo i ystyried a ddylid gofyn am adolygiad o'r Radd a Bennir gan Ganolfannau dros dro;

(e) ar gais gan Ddysgwr, mae copïau o unrhyw ddeunyddiau perthnasol y gallai'r Dysgwr ofyn yn rhesymol amdanynt i'w galluogi i ystyried a ddylid gofyn am adolygiad o'r Radd a Bennir gan Ganolfannau dros dro yn cael eu darparu;

(f) bod y trefniadau sydd ar waith ar gyfer adolygu Gradd a Bennir gan Ganolfannau dros dro yn darparu y bydd pob adolygiad o'r fath yn cael

ei oruchwylio gan bobl nad oes ganddynt unrhyw fuddiant personol yng nghanlyniad yr adolygiad sy'n cael ei gynnal,

(g) bod adolygiad yn cael ei oruchwylio gan bobl nad oeddent yn ymwneud yn flaenorol â phenderfynu ar y Radd a Bennir gan Ganolfannau dros dro,

(h) bod y trefniadau sydd ar waith ar gyfer adolygu Gradd a Bennir gan Ganolfannau dros dro yn ei gwneud yn ofynnol i'r Dysgwr gael ei hysbysu o ganlyniad yr adolygiad, o'r rhesymau dros y canlyniad a bennwyd ac am unrhyw newid i'r radd,

(i) bod y trefniadau sydd ar waith i'r Dysgwr ofyn am adolygiad o'r Radd a Bennir gan Ganolfannau dros dro yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw adolygiad o'r fath gael ei gwblhau er mwyn cwrdd â gofynion CBAC mewn perthynas â'r amser erbyn yr hwn y mae'n rhaid darparu Graddau a Bennir gan Ganolfannau dros dro, a

GQAAFW4.4 Pan fydd Canolfan o'r farn y dylid newid Gradd a Bennir gan Ganolfannau dros dro Dysgwr yn dilyn adolygiad o dan Amod GQAAFW4.1, rhaid iddi gyflwyno ei Gradd a Bennir gan Ganolfannau dros dro ddiwygiedig i CBAC yn unol ag amserlenni penodol, a rhaid i CBAC newid y radd honno.

GQAAFW4.5 O ran Ymgeiswyr Preifat sydd â Pherthynas â Chanolfan, lle mae CBAC yn ystyried y dylid newid Gradd a Bennir gan Ganolfannau dros dro Dysgwr yn dilyn adolygiad o dan Amod GQAAFW4.2, rhaid iddo newid y Radd honno.

Amod GQAAFW5 - Cam 2 - Apelio i CBAC

GQAAFW5.1 Mewn perthynas â phob canlyniad y mae'n ei gyhoeddi o dan Amod GQAAFW3.1, rhaid i CBAC -

(a) sefydlu, cynnal a chydymffurfio â phroses apelio sy'n darparu ar gyfer apelio i CBAC, ar ôl i adolygiad gan y Ganolfan ddod i ben, ar y sail -

(i) na ddilynodd y Ganolfan ei gweithdrefn yn gywir ac yn gyson wrth gyrraedd at ganlyniad y Dysgwr (gan gynnwys unrhyw fethiant mewn sicrhau ansawdd) neu wrth gynnal ei adolygiad;

(ii) mae'r canlyniad yn adlewyrchu ymarfer afresymol o farn academaidd ar ran y Ganolfan, a /neu

(iii) gwnaeth CBAC wall gweinyddol mewn perthynas â'r canlyniad.

GQAAFW5.2 Rhaid i CBAC gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y Ganolfan -

(a) yn gwneud Dysgwyr yn ymwybodol o'r trefniadau sydd ganddi ar waith cyn cyhoeddi canlyniadau o dan Amod GQAAFW3.1, ac

(b) yn rhoi datganiad o'r trefniadau i'r dysgwyr yn brydlon pan ofynnir amdanynt.

GQAAFW5.3 Pan fydd CBAC yn canfod y dylid newid canlyniad Dysgwr yn dilyn apêl o dan Amod GQAAFW5.1 -

(a) rhaid iddo ddarparu ei resymau dros y penderfyniad hwnnw i'r Ganolfan;

(b) caiff ofyn am farn y Ganolfan ynghylch y canlyniad diwygiedig priodol, a

(c) rhaid iddo gyhoeddi canlyniad diwygiedig i'r Dysgwr (a allai fod yn unol â barn y Ganolfan neu ddim) lle mae'n ystyried ei fod yn briodol o dan Amod GQAAFW5.8.

GQAAFW5.4 Rhaid i'r broses apelio y mae CBAC wedi'i sefydlu o dan Amod GQAAFW5.1(a) -

(a) ddarparu bod unrhyw gais am apêl mewn perthynas â Dysgwr yn cael ei wneud -

(i) ar ran y Dysgwr gan y Ganolfan a gynhaliodd yr adolygiad perthnasol o dan Amod GQAAFW4.1 (a), a

(ii) chyda chydsyniad y Dysgwr, a

(b) ei gwneud hi'n ofynnol i bob Canolfan sydd wedi cynnal adolygiad o dan Amod GQAAFW4.1 ofyn am apêl o dan Amod GQAAFW5.1(a) ar ran unrhyw Ddysgwr sy'n dymuno gwneud hynny.

GQAAFW5.5 Gallai'r broses apelio yn unol ag Amod GQAAFW5.1 -

(a) ddarparu na fydd CBAC yn cynnal apêl ond ar ôl talu ffi,

(b) nodi gofynion rhesymol eraill ar gyfer gwneud cais am apêl, a

(c) nodi cyfnod o amser y mae'n rhaid gofyn am apêl o'i fewn.

GQAAFW5.6 Pan fo'r broses apelio honno'n nodi cyfnod o amser y mae'n rhaid gofyn am apêl ynddo rhaid i'r cyfnod -

(a) fod yn rhesymol, a

(b) chydymffurfio ag unrhyw ofynion a allai gael eu cyhoeddi gan Cymwysterau Cymru a'u hadolygu o bryd i'w gilydd.

GQAAFW5.7 Rhaid i'r broses apelio honno ddarparu ar gyfer sicrhau bod -

(a) pob penderfyniad apêl yn cael ei wneud gan unigolion sydd â chymhwysedd priodol ac nad oes ganddynt fuddiant personol yn y penderfyniad yr apelir yn ei erbyn, ac i

(b) CBAC roi gwybod am ganlyniad apêl i'r Ganolfan a ofynnodd am yr apêl ar ran y Dysgwr, gan nodi'r rhesymau dros y canlyniad hwnnw.

GQAAFW5.8 Pan fydd CBAC yn darganfod trwy ei broses apelio a sefydlwyd o dan yr Amod hwn bod unrhyw ganlyniad y mae wedi'i gyhoeddi yn anghywir rhaid iddo -

(a) ystyried a yw'n briodol cywiro'r canlyniad hwnnw gan roi sylw dyladwy i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Gymwysterau Cymru, a

(b) chywiro'r canlyniad hwnnw lle mae'n ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.

GQAAFW5.9 Rhaid i CBAC gyhoeddi canllawiau am y prosesau adolygu ac apelio a sefydlwyd o dan Amodau GQAAFW4 a GQAAFW5, gan gynnwys ynghylch -

(a) hawliau dysgwyr i adolygiadau ac apeliadau, gan gynnwys y rhesymau amdanynt fel y'u nodir yn Amodau GQAAFW4.1 a GQAAFW5.1;

(b) cyfrifoldebau Canolfannau dros gynnal adolygiadau a chefnogi apeliadau, gan gynnwys ceisiadau i Wasanaeth Adolygu Gweithdrefn Arholiadau Cymwysterau Cymru (EPRS);

(c) y dystiolaeth a fydd yn cael ei hystyried gan CBAC mewn apêl, ac

(d) y gallai canlyniad Dysgwr gael ei gynyddu neu ei ostwng yn dilyn adolygiad neu apêl.

GQAAFW5.10 Rhaid i CBAC gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod Canolfannau'n hysbysu Dysgwyr am:

(a) argaeledd Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefn Arholiadau Cymwysterau Cymru;

(b) pwrpas Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefn Arholiadau Cymwysterau Cymru, ac

(c) amserlenni ar gyfer cyflwyno cais o'r fath i Cymwysterau Cymru ar ddiwedd proses apelio CBAC (Cam 2).

Gofynion mewn perthynas â phennu canlyniadau

Mae Amod GQAAFW3.2 (a) yn caniatáu inni nodi gofynion a chanllawiau mewn perthynas â phennu canlyniadau i'w cyhoeddi ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol o dan Fframwaith GQAAFW.

Rydym yn nodi ein gofynion at ddibenion Amod GQAAFW3.2 (a) (i) isod. Gallai Cymwysterau Cymru osod gofynion ychwanegol ar unrhyw adeg a gellir diwygio'r rhai hynny a nodir yn y Ddogfen Reoleiddio hon hefyd. Bydd unrhyw ychwanegiadau neu welliannau o'r fath yn cael eu cyfleu i CBAC.

Cyflwyniad

Rhaid i CBAC bennu canlyniadau Cymwysterau Cyffredinol a gyhoeddir o dan Fframwaith GQAAFW ar sail dyfarniadau gan Ganolfannau mewn perthynas â'u Dysgwyr.

Rhaid i CBAC gyhoeddi canlyniadau ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol y mae'n sicrhau sydd ar gael yn unol â'r gofynion a nodir isod.

Graddau a Bennir gan Ganolfannau

Rhaid i CBAC ofyn i Ganolfan ddarparu lefel benodol o gyrhaeddiad (Gradd a Bennir gan Ganolfannau dros dro) mewn perthynas â

(a) phob Dysgwr yn y Ganolfan,
(b) Ymgeisydd Preifat a asesir gan Ganolfannau,

y mae'n ofynnol i CBAC gyhoeddi canlyniad iddo o dan Amod GQAAFW3.1 (y 'Radd a Bennir gan Ganolfannau').

At ddibenion y Fframwaith GQAAFW hwn, cyfeirir at ganlyniadau a gyhoeddir o dan Amod GQAAFW3.1 i Ymgeiswyr Preifat sydd â Pherthynas â Chanolfan fel y 'Radd a Bennir gan Ganolfannau'.

Rhaid i CBAC chwarae rhan uniongyrchol yn y trefniadau asesu ar gyfer Ymgeiswyr Preifat sydd â Pherthynas â Chanolfan. Mae hyn yn cynnwys:

- gosod y gofynion asesu a hysbysu'r Ganolfan am yr asesiadau sydd i'w cymryd;
- marcio ac asesu gwaith y Dysgwr i gynhyrchu Gradd a Bennir gan Ganolfannau dros dro.
- seilio eu barnau ar yr un canllaw â'r un a ddefnyddir gan Ganolfannau, gan gynnwys y disgrifyddion graddau cyhoeddedig.
- trin adolygiad Cam 1 o broses y Graddau a Bennir gan Ganolfannau dros dro. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried y dyfarniad a wnaed ar y dystiolaeth yn ogystal â'r broses, yn gyson â Cham 1 ar gyfer Dysgwyr eraill.
- caniatáu i'r Dysgwr ofyn am apêl Cam 2 ar ôl i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi o dan Amod GQAAFW3.1, a
- sicrhau bod apêl Cam 2 yn cael ei chwblhau gan unigolyn sy'n annibynnol ar yr adolygydd sy'n rhan o adolygiad Cam 1, ac yn unol â'r holl ofynion eraill a nodir yn Amod GQAAFW5.

Rhaid i CBAC gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y Radd a Bennir gan Ganolfannau ar gyfer Dysgwr yn seiliedig ar gynnwys y pwnc y mae'r Dysgwr hwnnw wedi'i ddysgu yn unig.

Rhaid i CBAC gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod ei Ganolfannau, wrth gynhyrchu Graddau a Bennir gan Ganolfannau, yn ystyried dogfen Cymwysterau Cymru Haf 2021: Canllawiau ar drefniadau amgen ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch cymeradwy, (Canllawiau'r Ganolfan).[4]

Fel rhan o'r canllawiau a ddarperir o dan Amod GQAAFW3.3 (a), rhaid i CBAC roi canllawiau i Ganolfannau ynghylch penderfynu ar Raddau a Bennir gan Ganolfannau er mwyn ategu Canllawiau Canolfannau Cymwysterau Cymru.

Deunyddiau cefnogi

Er mwyn cynorthwyo Canolfannau i lunio'u barnau, rhaid i CBAC ddarparu fframweithiau asesu cymwysterau, cyn-bapurau wedi'u haddasu a chefnogaeth i Ganolfannau ddyfeisio eu hasesiadau eu hunain ('Deunyddiau Cefnogi').

Pan fydd Canolfan yn dewis defnyddio cyn-bapurau wedi'u haddasu, rhaid i CBAC beidio â nodi pryd y cânt eu defnyddio na gosod amodau ar gyfer cynnal unrhyw asesiad a ddefnyddir gan eu defnyddio.

Rhaid i CBAC sicrhau bod ei Ddeunyddiau Cymorth ar gael i Ganolfannau erbyn 26 Mawrth 2021.

Sicrhau ansawdd mewnol gan Ganolfannau

Rhaid i CBAC gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod gan Ganolfan drefniadau effeithiol ar waith, a chydymffurfio â nhw, i sicrhau ansawdd y dyfarniadau y mae'n eu gwneud mewn perthynas â'i Graddau a Bennir gan Ganolfannau cyn eu cyflwyno i CBAC.

Rhaid i CBAC gymryd pob cam rhesymol i sicrhau, wrth weithredu eu prosesau sicrhau ansawdd mewnol ar gyfer haf 2021, bod Canolfannau yn ystyried dogfen Cymwysterau Cymru Haf 2021: Canllawiau ar drefniadau amgen ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch sydd wedi'u cymeradwyo (Canllawiau'r Ganolfan)

Fel rhan o'r canllawiau a ddarperir o dan Amod GQAAFW3.3(a), rhaid i CBAC ddarparu arweiniad i Ganolfannau ar sicrhau ansawdd mewnol.

Sicrhau ansawdd allanol gan CBAC

Rhaid i CBAC sicrhau bod ganddo drefniadau effeithiol ar waith, a'i fod yn cydymffurfio â hwy, sy'n caniatáu iddo sicrhau ansawdd Graddau a Bennir gan Ganolfannau dros dro.

Rhaid i CBAC sicrhau bod y trefniadau hynny yn cynnwys darpariaeth ar gyfer -

[4] https://qualificationswales.org/cymraeg/dyfarnu-2021/dogfennau-canllaw/

(a) cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, sicrhau bod CBAC yn gwirio trefniadau sicrhau ansawdd mewnol pob Canolfan a fydd yn cyflwyno graddau iddi o dan Fframwaith GQAAFW,

(b) CBAC i wirio sampl o gofnodion gwneud penderfyniadau ar gyfer pob Canolfan, a

(c) CBAC i gynnal gwiriadau manylach lle mae'n ymddangos bod Graddau a Bennir gan Ganolfan yn annodweddiadol (Canolfannau â phatrymau mynediad annisgwyl, Canolfannau lle roedd y gwiriad sicrhau ansawdd mewnol yn tynnu sylw at bryderon, a Chanolfannau y mae CBAC wedi derbyn cwynion neu wybodaeth berthnasol amdanynt gan chwythwyr chwiban).

Gallai CBAC ofyn am dystiolaeth y seilir y Graddau a Bennir gan Ganolfannau arni gan unrhyw Ganolfan nad yw'n bodloni gwiriadau CBAC.

O dan Amod GQAAFW3.4 (b), rhaid i CBAC beidio â chyhoeddi canlyniad lle nad yw unrhyw faterion a nodwyd fel rhan o'i broses sicrhau ansawdd wedi'u datrys er boddhad i CBAC.